**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu – Gweithio Rhanbarthol

**Committee Room 4, Guildhall, Swansea**

**Dydd Llun, 2 Hydref 2017 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J A Hale | C A Holley | M H Jones |
| B J Rowlands | R C Stewart | T M White |

**Swyddog(ion)**
Phil Roberts
Sarah Caulkin

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M Sykes

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datganodd y Cynghorydd Joe Hale a'r Cynghorydd Mary Jones fudd personol yn y trosolwg o'r adroddiad Gweithio Rhanbarthol.

2 **Trosolwg o'r adroddiad Gweithio Rhanbarthol a'r sesiwn holi ac ateb**

Roedd y Cynghorydd Rob Stewart (Arweinydd), Phil Roberts (Prif Weithredwr) a Sarah Caulkin (Cyfarwyddwr Adnoddau) yn bresennol yn y panel a rhoesant drosolwg o Weithio Rhanbarthol er mwyn cyfeirio a chefnogi'r ymchwiliad. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Trafodwyd pam ein bod angen diwygio, gan gynnwys: caledi a fforddadwyedd gwasanaethau'r cyngor; mae patrymau ôl-traed cymhleth ar hyn o bryd; cyfyngiadau cydweithio a sicrhau bod y ffocws ar ganlyniadau dinasyddion.
- Mae gwaith newid sylweddol yn mynd rhagddo ar lefel ranbarthol yn dilyn y cyhoeddiadau a chyfarfod dilynol Llywodraeth Cymru ynghylch Diwygio Llywodraeth Leol (LGR) yng Nghymru. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei gynigion ar gyfer gweithio rhanbarthol gorfodol a Phwyllgorau Llywodraethu ar y Cyd (PLIC) sy'n codi o broses ymgynghori'r Papur Gwyn:
- Mae meysydd gwasanaeth mandedig gweithio rhanbarthol yn cynnwys:
  - Datblygiad economaidd
  - Cludiant
  - Cynllunio defnydd tir strategol a rheoli adeiladau
  - Gwasanaethau cymdeithasol

- Gwella addysg ac anghenion dysgu ychwanegol
- Diogelu'r cyhoedd

- Byddai'r Pwyllgorau Llywodraethu ar y Cyd yn gyfrifol am gynllunio a rheoli'r rhain yn effeithiol. Bydd dau fath o Bwyllgorau Llywodraethu ar y Cyd: Llywodraethu a Gwasanaeth. Bydd Pwyllgorau Llywodraethu ar y cyd ar gyfer pob rhanbarth yn cynnwys aelodau etholedig. Byddant yn gyrff sy'n gwneud penderfyniadau â lefelau cyson o ddirprwyaeth o bob ALI. Bydd deddfwriaeth newydd yn pennu eu dyletswyddau a'u pwerau.
- Bydd strwythurau partneriaeth presennol yn cael eu cynnal yn y fframwaith newydd ac yn cydfodoli.
- Cynigir bod tri rhanbarth mawr,
  - Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.
  - Byddai Abertawe'n rhan o Ganolbarth a Gorllewin Cymru ynghyd â Phowys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gâr a Chastell-nedd Port Talbot.
- Mae'n debygol y bydd llawer o Bwyllgorau Llywodraethu Gwasanaeth ar y Cyd dan y cynigion hyn ar batrymau ôl-traed rhanbarthol ac is-ranbarthol. Bydd y rhain yn goruchwylio cynllunio, cyllidebu, cyllid etc. Roedd gan y panel bryderon ynghylch haen arall o fiwrocratiaeth o bosib.
- Hysbyswyd y panel y byddant yn symud i ffwrdd o uno i fodel fframwaith.
- Amlinellodd y panel yr angen am ystyried trefniadau craffu yn y modelau partneriaeth hyn am fod hyn yn dal i fod yn aneglur ar hyn o bryd.
- Atodwyd crynodeb o ymatebion Cyngor Abertawe i'r Papur Gwyn i'r adroddiad er gwybodaeth.
- Mae adolygiad o'r partneriaethau presennol yn amlygu bod y cyngor yn ymwneud ag oddeutu 100 o bartneriaethau/meysydd cydweithio ar hyn o bryd ond y tri mwyaf yw: ERW, y Dinas-ranbarth a Bae'r Gorllewin.
- Ac eithrio'r tri mwyaf, mae'r cyngor hefyd yn gwneud cyfraniad ariannol o £150 i bartneriaethau'n flynyddol. Mae amser swyddog y cyngor yn gyfwerth ag ychydig llai na 600 o ddiwrnodau bob blwyddyn (heb gynnwys y swyddi hynny sy'n cael eu hariannu'n benodol drwy grant ar gyfer gwaith rhanbarthol)
- Cytunodd y panel ei fod yn bwysig deall yr hyn sy'n gweithio'n dda gyda'r trefniadau presennol, yr hyn sydd angen ei wella a pha gydweithrediadau sydd ddim yn ychwanegu gwerth. Mae'r panel yn bwriadu ystyried hyn wrth siarad â swyddogion a phartneriaid drwy'r ymchwiliad hwn.
- Trafodwyd prif fanteision ac anfanteision gweithio ar y cyd, gan gynnwys:
  - *Manteision posib:* rhannu arfer da, syniadau ac arloesedd; rhannu adnoddau er mwyn sicrhau mwy o allu; rhannu gwybodaeth a deallusrwydd busnes; cynllunio a rheoli perfformiad ar y cyd yn rhanbarthol; rheoli prosiect(au) risg uchel ar y cyd; hyfforddiant a datblygiad a chyfleoedd rhwydweithio.
  - *Anfanteision posib:* yn aml, cynhelir cyfarfodydd yn Llandrindod - golyga hyn fod yr holl bartneriaid yn gorfod teithio'n bell. Cytunodd y panel fod angen gwell defnydd o dechnoleg newydd a thechnoleg gweithio o bell; amser staff; gall grwpiau ac ysgogwyr â blaenoriaethau gwahanol wneud y broses o wneud penderfyniadau a chynnydd yn un araf; ychydig iawn o gyfraniad ariannol sydd, sy'n gallu golygu ei fod yn gweithredu ar adnoddau sydd eisoes wedi'u hymestyn; anaml y bydd rhai grwpiau'n cwrdd felly mae'n anodd gweithredu agenda ystyrlon.

- Nid yw trefniadau cadarn ar gyfer craffu wedi'u trafod eto, fodd bynnag amlygodd crynodeb y Papur Gwyn y dylai ymagwedd PLIC gael ei chynnwys ynghyd â phwyllgor craffu rhanbarthol ar y cyd. Ni ddylai gwaith gael ei ddyblu rhwng pwyllgorau craffu rhanbarthol a'r awdurdodau lleol a dylai un awdurdod arwain pwyllgor craffu unigol.
- Awgrymwyd hefyd y dylai swyddogaeth graffu fod yn seiliedig ar arfer da yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'n rhaid i aelodau etholedig lleol gael llais ac mae'n rhaid iddynt allu dal cyrff rhanbarthol i gyfrif ar ran dinasyddion lleol. Mae awgrym hefyd i gynnwys grwpiau cyhoeddus a rhanddeiliaid yn y broses graffu.
- Amlygwyd materion ynghylch cytuno, er enghraifft: cydfodolaeth PLIC a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; cytuno ar draws clystyrau rhanbarthol gwahanol sydd eisoes ar waith fel dinas-ranbarthau.
- Mae risg y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith sydd naill ai heb ei gydlynu, neu sy'n cael effaith andwyol ar y partneriaethau presennol hynny sy'n profi eu bod yn hynod fuddiol. Clywodd y panel fod y CLILC yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu trefniadau presennol ac i wella lle bo angen; adolygu cytundebau rhwymol presennol rhwng cynghorau; ystyried amrywiadau rhanbarthol a pheidio â chymryd ymagwedd un ateb sy'n addas i bawb; ystyried cytundebau fframwaith rhanbarthol yn gynnar yn y broses cyn ffurfioli popeth.
- Mae risg hefyd y bydd y penderfyniadau rhanbarthol yn gofyn am broses benderfynu gan yr ALl a allai gymryd amser a pheri i'r newidiadau fod yn anodd i'w gweithredu.
- Cytunodd y panel fod rhaid i ni ddysgu gwersi o brofiad, gan gynnwys ad-drefniadau llywodraeth leol a chynigion i rannu gwasanaethau, er enghraifft:
  - Yr angen am glymblaid arweiniol a gweledigaeth a rennir.
  - Mae angen i'r cyngor a'r partneriaid allu rhoi amser ac adnoddau er mwyn datblygu syniadau
  - Yr angen am arweinyddiaeth glir, amser, blaenoriaeth a ffocws
  - Yr angen am gysoni hyfforddiant a sgiliau staff
  - Yr angen am gysoni amodau a thelerau a pholisïau sy'n ymwneud â'r gweithlu wrth iddynt amrywio'n sylweddol ac mae hyn yn cymryd amser
  - Cysoni rhwng gwahanol dimau sy'n gweithio gyda'i gilydd oherwydd gall diwylliant fod yn wahanol iawn mewn gwahanol sefydliadau

3 **Trafod a Chynllunio Ymchwiliad Craffu Gweithio Rhanbarthol**

Cytunwyd ar y canlynol:

a) Casgliad o ddyddiadau ar gyfer y rhaglen waith gytunedig
b) Gweithgareddau craffu yn ôl y rhaglen waith ddrafft a ddosbarthwyd
c) Cyhoeddi blog 'galw am dystiolaeth' a'i rannu ar Twitter
ch) Y Tîm Craffu i gwblhau peth ymchwil desg sy'n edrych ar wahanol ddulliau craffu a ddefnyddir mewn partneriaethau amrywiol.
d) Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Hydref a bydd yn edrych ar y darlun ariannol mewn perthynas â gweithio rhanbarthol